Ymgynghoriad ar ganllaw anstatudol yn ymwneud â chategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Ymateb Cymdeithas yr Iaith

1. Cyflwyniad

1.1. Mae Cymdeithas yr Iaith yn fudiad sy'n ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru.

1.2. Mae effeitholrwydd y system addysg i greu siaradwyr newydd yn gwbl ganolog ac allweddol i strategaeth iaith y Llywodraeth: nid oes modd fforddio peidio â chyflawni yn y maes hwn. Mae tynged holl strategaeth y Llywodraeth yn y fantol.

1.3. Nid oes amheuaeth bod y system addysg bresennol yn gwbl anaddas i gyflawni'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg sydd ei angen. Ar sail y 'twf' ers 2010, byddai'n cymryd:

- 1,560 o flynyddoedd i sicrhau bod pob plentyn 7 mlwydd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg;
- a 352 o flynyddoedd i gyrraedd targed y Llywodraeth o 40% o blant 7 mlwydd oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.

1.4. Cyflwynwn argymhellion a sylwadau manwl ar y canllaw arfaethedig is-law. Fodd bynnag, credwn fod angen dybryd i'r Llywodraeth nesaf gyflwyno Deddf Addysg Gymraeg yn unol ag argymhelliad ei phanel o arbenigwyr ei hun, Bwrdd Cynghori Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Er ein bod yn gwerthfawrogi ymdrechion swyddogion i wneud eu gorau o fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, mae'n gwbl amlwg bellach bod angen Deddf Addysg Gymraeg er mwyn cyflawni gweledigaeth miliwn o siaradwyr y Llywodraeth.

1.5. Ymhellach, mae'r newidiadau i'r categorïau hyn yn codi cwestiynau eraill am bolisi addysg y Llywodraeth, yn benodol cwestiynau ynghylch y cymhellion ariannol a chamau i gynllunio'r gweithlu sydd eu hangen. Galwn ar y Llywodraeth i gyhoeddi camau gweithredu pendant a newidiadau sylweddol yn y meysydd hyn, a hynny'n fuan.

2. Prif sylwadau

2.1. Mae'n prif argymhellion a sylwadau ar y canllaw arfaethedig fel a ganlyn:

- Cytunwn fod rhaid diwygio'r system bresennol o gategoreiddio ysgolion a newid eu darpariaeth er mwyn annog y twf mewn addysg Gymraeg sydd ei angen;
- Croesawn ddatganiad y Llywodraeth mai bwriad y polisi yw '*cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg*' ac yn cymeradwyo'r amcan o '*hwyluso cynnydd ysgolion ar hyd eu taith ieithyddol*' a '*hwyluso'r broses o symud ysgol o un categori i'r llall*'. Mae'r cyfarwyddyd pendant hwn yn glodwiw ac mae angen yr arweiniad hwn o'r llywodraeth ganolog ar awdurdodau lleol ac ysgolion;
- Fodd bynnag, nid yw'r dogfennau yn cynnwys unrhyw gynigion pendant ar *sut* i hwyluso a chymell symud ysgolion ar hyd y continwwm, a heb gymhelliant na chefnogaeth ychwanegol, ni fydd y nod yn cael ei wireddu;
- Croesawn y ffaith fod y cynigion yn lleihau'r nifer o gategorïau, ac felly'n golygu bydd modd i ysgol gynyddu maint ei darpariaeth Gymraeg yn gyson heb orfod mynd trwy'r broses ymgynghori o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion cymaint o weithiau;
- Fodd bynnag, pryderwn fod y modd mae'r categorïau newydd wedi'u llunio yn rhy eang i sicrhau cynnydd, a chynnydd ystyrlon, ac maent felly yn methu cyflawni'r nod polisi;
- Yn benodol, mae'r categori 'ysgol cyfrwng Cymraeg' newydd drafft ar gyfer ysgolion uwchradd mor eang ei fod yn ddiystyr, a bydd yn tanseilio ysgolion cyfrwng

Cymraeg presennol ac yn methu o ran annog cynnydd mewn darpariaeth ysgolion sy'n darparu canran is o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd achos ni fydd cymhelliant iddynt wneud hynny;

- Dylai categori ysgol cyfrwng Cymraeg gyfeirio at yr ysgol gyfan nid at ffrwd yn unig, a dylai ysgolion dwy ffrwd fod yng nghategori 2 Cymraeg/Saesneg;
- Credwn fod angen defnydd o is-gategorïau yn y sector uwchradd er mwyn gwahaniaethu rhwng gwahanol lefelau o ddarpariaeth, gwarchod y diffiniad presennol o ysgol cyfrwng Cymraeg ac annog pob ysgol i symud tuag at y model hynny;
- Cynigiwn fyddai ymgynghoriad cyhoeddus wrth symud categori (fel sy'n ofynnol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion) ond gall symud i fyny is-gategori ddigwydd trwy benderfyniad rhwng yr awdurdod lleol a'r ysgol;
- Croesawn gyflwyno categorïau trosiannol i hwyluso taith ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol, ond credwn fod angen newid y cyfnod gall ysgol fod mewn categori trosiannol fel nad oes isafswm, a bod uchafswm o 5 mlynedd;
- Cymeradwyn yr egwyddor craidd o beidio symud yn ôl, ond mae angen cryfhau'r egwyddor fel ei fod yn ei wneud yn glir mai'r disgwyliad yw na fydd ysgolion yn cynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol nag a wnaethpwyd yn y gorffennol, *naill ai drwy symud categori neu leihau ei darpariaeth oddi fewn ystod ei chategori presennol*;
- Mae angen cryfhau'r disgwyliad y bydd ysgolion yn symud i fyny'r categorïau (oddi fewn a rhyngddynt) os yw'r newidiadau'n mynd i gyflawni'r nod polisi o gynyddu darpariaeth Gymraeg, a chefnogi strategaeth iaith ehangach y Llywodraeth;
- Pryderwn nad oes mecanwaith newydd na gwahanol ar gyfer normaleiddio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion Saesneg. Mae rhoi sylw i hyn yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau bod y Llywodraeth yn cyrraedd ei tharged o hanner y disgyblion sy'n mynd i ysgolion Saesneg yn siarad Cymraeg erbyn 2050. Nid ydym yn argyhoeddig bod y canllaw fel y mae yn ddigonol er mwyn cyrraedd targedau'r Llywodraeth;
- Yn ôl diffiniad ysgolion Saesneg yn y canllaw drafft, maen nhw'n methu o ran cyflawni'r nod honedig. Rhaid felly cyflwyno cynllun ar cyd â'r canllaw hwn ar gyfer symud yr holl ysgolion categori 1 i gategori 2 ar frys, gan gychwyn gydag ysglion cynradd;
- Dylid newid y drefn o rifo'r categorïau fel mae ar hyn o bryd, fel bod y rhifau'n codi i 1 o ran eu defnydd o'r Gymraeg, nid mewn trefn disgyn, er mwyn pwysleisio cynnydd. Hynny yw, dylai'r drefn rhifo yn y categorïau cynradd ac uwchradd newid fel ei bod yn mynd o 3 > 1 ac ysgol cyfrwng Saesneg fydd categori 3, ac ysgol cyfrwng Cymraeg fydd categori 1;
- Nid yw'n glir beth fydd y drefn fonitro i gydfynd gyda'r canllaw newydd. Dylid sefydlu system monitro cryf wedi'i oruchwylio gan Estyn i sicrhau bod ysgolion yn cynnal a chynyddu eu darpariaeth Gymraeg;
- I gydfynd â'r newidiadau i'r system categoreiddio, mae angen cymelliannau a chamau gorfodi clir er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni ar eu targedau a'u hamcanion o dan Reoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, trwy symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol a/neu agor ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd;
- Mae hefyd angen pecyn o adnoddau ychwanegol ar ysgolion ac awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i gynyddu darpariaeth Gymraeg. Dylai'r canllaw amlinellu'n fanwl y cymorth a'r camau polisi cadarn newydd a weithredir gan y Llywodraeth ac asiantaethau eraill er mwyn eu cynorthwyo a'u cymell i gyflawni ar y nod o symud ysgolion i fyny'r categorïau;
- Nid yw'n glir o'r dogfennau ymgynghori sut mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'r canllaw anstatudol newydd hwn rhyngweithio ag elfennau statudol o'r system addysg a'u hatgyfnerthu o ran annog twf addysg Gymraeg, megis y Cod Trefniadaeth Ysgolion a rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r materion sy'n

codi wrth ystyried y canllaw hwn yn tanlinellu'r angen am strategaeth gynhwysfawr gan y Llywodraeth ar gyfer tyfu addysg Gymraeg, a newid yn y ddeddfwriaeth sylfaenol yn nhymor nesaf y Senedd.

3. Sylwadau manwl ar y canllaw a'r categorïau arfaethedig

Lleihau nifer y categoriau

3.1. Croesawn y cynnig i lleihau'r nifer o gategorïau, fydd yn golygu bydd modd i ysgol gynyddu maint ei darpariaeth Gymraeg yn gyson heb orfod mynd trwy'r broses ymgynghori o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion cymaint o weithiau.

3.2. Bydd hyn yn lleihau biwrocratiaeth a'r tueddiad i'r broses ymgynghori ar newid categori ysgol gael ei defnyddio fel pêl-droed gwleidyddol gan wleidyddion i greu rhwygiadau mewn cymunedau. Dylai fod yn broses mor llyfn â phosib i ysgol allu cynyddu maint ei darpariaeth Gymraeg, rhywbeth sydd wedi'r cwbl, o fudd mawr i'w disgyblion ac yn cyflawni amcanion polisi cenedlaethol.

3.3. Er mwyn cadw'r buddiannau hyn o leihau'r nifer o gategorïau, ond sicrhau bod dal modd gwahaniaethu rhwng gwahanol lefelau o ddarpariaeth ac annog cynnydd, argymhellwn ychwanegu is-gategorïau yn y sector uwchradd (sylwadau pellach is-law).

3.4. Cynigiwn fyddai ymgynghoriad cyhoeddus wrth symud categori, ond gall symud i fyny is-gategori ddigwydd trwy benderfyniad rhwng yr awdurdod lleol a'r ysgol.

Categorïau trosiannol

3.5. Cytunwn â'r cynnig i gyflwyno cyfnodau trosiannol a'r datganiad mai '*cynyddu'r ddarpariaeth o'r Gymraeg, a hynny er mwyn symud i'r categori nesaf, yw nod yr is-gategorïau trosiannol.*'

3.6. Fodd bynnag, credwn fod y cynnig ar gyfer y cyfnodau o amser gall ysgol fod mewn categori trosiannol yn tanseilio'r nod o annog cynnydd, a chynnydd cyson a chyflym.

3.7. Nid oes rheswm addysgol neu ymarferol dros gael isafswm o bum mlynedd o fod mewn categori trosiannol, ac nid yw'r Llywodraeth yn cynnig un yn y canllaw. Os oes modd i ysgol gynyddu ei darpariaeth Gymraeg yn gyflymach na hynny (er enghraifft trwy newid mewn staff) ni ddylid ei rhwystro o symud i'r categori nesaf.

3.8. Mae'r cynnig i adael i ysgol aros mewn categori trosiannol am hyd at 10 mlynedd yn gyfnod rhy hir ac nid yw'n cyflawni'r nod o annog cynnydd cyson a gwella eglurder y system categoreiddio.

3.9. Byddai caniatáu i ysgolion aros mewn categori trosiannol am 10 mlynedd yn peri risg o arafu cynnydd (gan nad oes cymhelliant i symud yn gyflymach) a chreu camargraff neu ddryswch ymysg rhieni a gofalwyr ynghylch lefel y ddarpariaeth Gymraeg yn yr ysgol (gan fydd modd i'r ysgol fod rhwng categorïau am gyfnod hirach na mae dysgwyr yn yr ysgol ei hun). Deallwn fydd angen cyfnod o amser estynedig ar nifer o ysgolion i gynllunio a chynyddu eu darpariaeth Gymraeg, ond mae degawd yn rhy hir.

3.10. **Dylid newid y cyfnodau trosiannol felly fel:**

a) nad oes lleiafswm o flynyddoedd mae'n rhaid i ysgol aros mewn cyfnod trosiannol (felly o 5 mlynedd i 0) ac;
b) uchafswm o 5 mlynedd sydd arnynt (felly o 10 mlynedd i 5) fel nad oes modd i ysgol aros mewn cyfnod trosiannol am fwy na phum mlynedd.

Disgwyliadau o ran cynnydd

3.11. Croesawn gyflwyniad yr egwyddor craidd o beidio symud yn ôl, sef '*na ddylai fod ysgolion yn cynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol nag a wnaethpwyd yn y gorffennol.*'

3.12. Mae'r egwyddor hwn yn hollol greiddiol ac angenrheidiol i sicrhau cynnydd cyson ar draws y wlad, a chyflawni amcanion polisi'r Llywodraeth yn y maes. Mae angen cyfarwyddyd clir o'r fath ar awdurdodau lleol ac ysgolion.

3.13. Fodd bynnag, mae angen cryfhau'r egwyddor fel ei fod yn ei wneud yn glir mai'r disgwyliad yw na fydd ysgolion yn cynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol nag a wnaethpwyd yn y gorffennol, *naill ai drwy symud categori neu leihau ei darpariaeth oddi fewn ystod ei chategori presennol*.

3.14. Ni ddylai fod modd i ysgolion lithro o ran eu darpariaeth Gymraeg o fewn categorïau, gan fydd hyn yn tanseilio nodau'r polisi o gynyddu darpariaeth Gymraeg a gwella eglurder y categorïau i rieni a gofalwyr, ynghyd ag arwain at ganlyniadau addysgol gwaeth i ddisgyblion.

3.15. Mae angen cryfhau'r disgwyliad y bydd ysgolion yn symud i fyny'r categorïau (oddi fewn a rhyngddynt) os yw'r newidiadau'n mynd i gyflawni'r nod polisi o gynyddu darpariaeth Gymraeg, a chefnogi strategaeth iaith ehangach y Llywodraeth.

3.16. Mae tystiolaeth rhyngwladol yn dangos yn glir bod cyswllt rhwng dwyieithrwydd a safonau cyrhaeddiad uwch. Gwyddwn felly byddai annog ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog i symud ar hyd y continwwm ieithyddol yn rhan o gyflawni'r nod o godi safonau cyrhaeddiad addysg yng Nghymru.

3.17. Dywed y canllaw ym mharagraff 3.6:

> *'Rydym yn disgwyl i bob ysgol, ni waeth beth fo'i categori, ddatblygu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â'r cwricwlwm newydd. Fodd bynnag nid oes gofyniad i ysgolion symud rhwng categorïau. Os oes awydd symud categori, gall y canllaw hwn fod yn gerbyd i helpu ysgolion i gyrraedd nodau eu cwricwlwm yng nghyd-destun darpariaeth o'r Gymraeg, p'un ai drwy symud i gategori newydd neu chynyddu* [sic] *darpariaeth o fewn eu categori presennol.'* (tud 22)

3.18. Mae'r datganiad hwn yn llawer rhy wan os ydy'r Llywodraeth o ddifri am gynyddu darpariaeth Gymraeg, a syndod yw gweld agwedd mor oddefol tuag at y brif fecanwaith i gyflawni nod craidd y polisi. Rhaid felly cryfhau'r datganiad i wneud yn glir bod disgwyliad i bob ysgol symud i fyny'r categorïau a chynyddu eu darpariaeth oddi fewn iddynt, a bydd y Llywodraeth, awdurdodau lleol ac asiantaethau addysg eraill yn darparu cymorth ystyrlon i'w galluogi nhw i wneud hyn.

3.19. Fel arall, os ydy'r Llywodraeth yn parhau i gymryd yr un agwedd oddefol tuag at gynnydd mewn addysg Gymraeg, a dapariaeth Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog yn benodol, methiant llwyr fydd strategaeth iaith y Llywodraeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Y categorïau newydd

3.20. Cefnogwn lleihau'r nifer o gategorïau a'r budd o wneud hynny fel yr amlinellir uchod, ond mae'r categorïau newydd fel maent wedi'u dylunio yn rhy eang, ac na fyddent yn sicrhau cynnydd ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol, sef bwriad y canllaw newydd.

3.21. Oherwydd fod diffiniad 'ysgol cyfrwng Cymraeg' (sef y categori 3 arfaethedig) yn cwmpasu ystod o ysgolion mor eang — o'r rhai lle mae'r holl addysgu trwy gyfrwng y

Gymraeg heblaw'r Saesneg, i rai lle mae 70% o'r addysg trwy gyfrwng y Gymraeg — mae'n gwanhau'r diffiniad a disgwyliadau presenno, i'r graddau fydd y categori yn ddiystyr.

3.22. Heb gymelliannau a disgwyliadau cadarn, bydd or-ddibyniaeth ar fympwy penaethiaid a chyrff llywodraethu o ran darpariaeth Gymraeg a diffyg cymhelliant i symud i fyny'r continwwm ieithyddol.

3.23. Hollol ddiystyr fydd y categori 'ysgol cyfrwng Cymraeg' os ydy hynny'n gallu cynnwys yr ystod o ysgolion uwchradd sydd yn y categorïau dwyieithog A, B, C a D ar hyn o bryd, yn ogystal ag ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol, fel mae'r tabl ar dudalen 18 y canllaw yn awgrymu.

3.24. Ni ddylid gwanhau'r diffiniad o 'ysgol cyfrwng Cymraeg fel mae ar hyn o bryd, sef ysgol lle addysgir yr holl bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, heblaw Saesneg. Dyma safon aur addysg Gymraeg ers degawdau, ac un sy'n ennyn edmygedd rhyngwladol ym maes ieithoedd wedi'u lleiafrifoli.

3.25. Mae'r cynigion o ran categori 2 a 3 yn peri risg o greu cymelliannau gwrthnysig (*perverse incentives*) yn y system, a gwaethygu'r rhai sydd eisoes yn rhan ohoni. Er enghraifft, bydd modd i ysgol roi camargraff o lefel ei darpariaeth Gymraeg i rieni ac ni fydd cymhelliant bellach i ysgolion sy'n addysgu 70% o'u cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu'r canran hwnnw, achos mi fyddent yn cael eu diffinio fel ysgolion cyfrwng Cymraeg y naill ffordd.

3.26. Mae peryg hefyd, heb drefniadau cadarn o ran yr egwyddor o beidio symud yn ôl *o fewn categori*, gall y newidiadau arwain at leihad yn narpariaeth Gymraeg rhai ysgolion. Er enghraifft, o dan y cynigion hyn, gall ysgol uwchradd sydd ar hyn o bryd yn Gategori 1 neu 2a (sy'n golygu fod *pob* disgybl yn derbyn 80%-90% o'r cwricwlwm yn Gymraeg) cael ei newid yn raddol i addysgu ond rhyw hanner y cwricwlwm yn Gymraeg heb unrhyw benderfyniad ymwybodol o ran categori gan fod y categori 'ysgol cyfrwng Cymraeg' mor eang.

3.27. Fydd hon yn broblem yn siroedd y gorllewin, y gogledd a'r canolbarth, lle mae nifer fawr o ysgolion uwchradd ar hyn o bryd yn cael eu cynnwys yn y categorïau dwyieithog presennol. O dan y cynlluniau hyn, nid yw'n glir beth yw'r cymhelliant i'r awdurdodau lleol ac ysgolion unigol hynny gynyddu eu darpariaeth Gymraeg, gan fydd nifer ohonynt yn dod o dan y diffiniad o ysgol cyfrwng Cymraeg.

3.28. Mae goblygiadau i ysgolion Cymraeg yn ne'r wlad hefyd, lle mae'r mwyafrif ohonynt yn ysgolion cyfrwng Cymraeg o dan y diffiniadau presennol, na fydd eu darpariaeth nhw yn cael ei hadnabod o dan y categorïau newydd, na chwaith fel rhywbeth i'w hefelychu, fel y dylai fod. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg cynradd ac uwchradd wedi bod yn llwyddiant ysgubol dros ddegawdau yn cyflwyno'r Gymraeg i blant nad yw'n derbyn yr iaith ar yr aelwyd, trwy sicrhau dulliau trochi effeithiol tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

3.29. O dan y canllaw arfaethedig, byddai modd i'r ysgolion hyn felly hefyd leihau eu darpariaeth Gymraeg heb i hyn effeithio ar eu categori, rhywbeth fyddai'n niweidiol i naws a chanlyniadau addysgol yr ysgol, ynghyd â'r egwyddor mai ysgolion Cymraeg cyflawn dylai fod y nod ymhob sir.

3.30. Cytunwn â sylwadau prifathro Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yng Nghaerdydd, Matthew Evans:

> *'fe all hyn lurgunio addysg cyfrwng Cymraeg, sydd gant y cant trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall hyn ddrysu rhieni.*

Does dim incentive *i ysgolion symud ar hyd y continwwm iaith os ydy nhw yn cael eu diffinio fel ysgolion cyfrwng Cymraeg yn barod. Pam ddylen nhw barhau ar eu taith?"*[1]

3.31. Credwn fod angen defnydd o is-gategorïau yn y sector uwchradd er mwyn gwahaniaethu rhwng gwahanol lefelau o ddarpariaeth a sicrhau cynnydd.

3.32. Ymhellach, credwn fod y diffiniadau yn y canllaw drafft yn canolbwyntio'n ormodol ar gyfrwng addysgu pynciau yn unig. Mae cyfrwng iaith ysgol yn fwy na chanran y pynciau a addysgir trwy ba bynnag iaith. Mae cyfathrach cymdeithasol, gweithgareddau hamdden, naws ac ethos yr ysgol oll yn diffinio a sefydlu'r Gymraeg fel iaith naturiol yr ysgol — rhywbeth sydd eisoes yn frwydr mewn ysgolion gan eu bod yn cystadlu yn erbyn dylanwad Saesneg fel iaith mor bwerus.

3.33. Rhaid felly roi rhagor o bwyslais ar gyfrwng iaith yr elfennau hyn tu hwnt i wersi yn yr ystafell ddosbarth yn y diffiniadau o'r categoriau, ac annog ysgolion i gynyddu eu darpariaeth a defnydd o'r Gymraeg ar draws pob maes.

3.34. Mae hyn yn hefyd yn pwysleisio'r angen i gategoreiddio ysgolion uwchradd fel ysgolion cyfan, nid fel ffrydiau ar wahan tu fewn i ysgolion. Mae gwahaniaeth mawr rhwng ysgol cyfrwng Cymraeg gyflawn a ffrwd Gymraeg o fewn ysgol ddwyieithog, o ran cyfrwng iaith gweithgareddau, naws ac ethos tu hwnt i iaith addysgu pynciau yn unig a'r effaith mae hyn yn cael ar gaffael a defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion.

3.35. Os lleihau i dri chategori yn unig, dylent:

(a) gyfeirio at ysgolion cyfan, nid at ffrydiau tu fewn i ysgolion;

(b) dylai fod is-gategorïau cydnabyddiedig gyda meini prawf tu fewn i'r categoriau; a

(c) dylai fod ymgynghoriad cyhoeddus wrth symud categori, ond gall symud i fyny is-gategori ddigwydd trwy benderfyniad rhwng yr awdurdod lleol a'r ysgol.

3.36. Dylid hefyd newid y drefn o rifo'r categorïau fel mae ar hyn o bryd, fel bod y rhifau'n codi i Rhif 1 o ran eu defnydd o'r Gymraeg, nid mewn trefn disgyn, er mwyn pwysleisio cynnydd. Hynny yw, dylai'r drefn rhifo yn y categorïau cynradd ac uwchradd newid fel ei bod yn mynd o 3 > 1 ac ysgol cyfrwng Saesneg fydd categori 3, ac ysgol cyfrwng Cymraeg fydd categori 1.

3.37. Dylai'r canllaw gynnwys disgwyliad clir fod ysgolion yn annog disgyblion yn rhagweithiol i ddilyn pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a chefnogi nhw i wneud hynny, ac ni ddylid gollwng darpariaeth Gymraeg unrhyw bynciau oherwydd niferoedd (gan ddilyn yr egwyddor o beidio symud yn ôl.

3.38. Dylai'r canllaw gynnwys disgwyliad clir fod ysgolion yng nghategori 2 yn gwireddu hawl disgybl i gael mynediad at lenyddiaeth pynciol (h.y. gwerslyfrau ac unrhyw nodiadau gan yr athro/athrawes) yn Gymraeg.

3.39. Dylai'r canllawiau gynnwys disgwyliad clir fod ysgolion yng nghategori 2 yn gwireddu hawl disgybl i sefyll unrhyw arholiad neu gyflawni unrhyw waith asesu yn Gymraeg.

Ysgolion cynradd

Categori 1 drafft

3.40. Yn ôl nod polisi honedig y Llywodraeth, bydd ysgolion sydd yn y categori 1 drafft (ysgolion cyfrwng Saesneg) yn methu, oherwydd dim ond '*peth dealltwriaeth*' o'r Gymraeg fydd gan eu disgyblion. Nid oes modd i'r Llywodraeth gyflawni ei tharged ei

1 https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/56525451

hun o hanner y plant sy'n dod allan o ysgolion 'cyfrwng Saesneg' presennol yn siarad Cymraeg erbyn 2050 oni bai fod hyn yn newid, ac ar frys.

3.41. Y sector gynradd (ynghyd â'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant) yw'r man cychwyn naturiol er mwyn cyflawni'r nod.

3.42. Dylid cryfhau'r disgwyliadau ar gyfer ysgolion yn y categori hwn o ran eu defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt, a'i wneud yn glir bod disgwyliad bydd pob ysgol yn y categori yn symud tuag at gategori 2.

3.43. I gydfynd â'r canllaw hwn felly, dylid cyhoeddi cynllun gyda chamau gweithredu cadarn, cyllid ychwanegol, amserlen pendant a mesurau llwyddiant er mwyn symud pob ysgol gynradd categori 1 (cyfrwng Saesneg) i fod yn ysgol ddwyieithog.

3.44. Mae hefyd angen cynllun i symud yr holl sector blynyddoedd cynnar, gan gynnwys gofal plant a meithrinfeydd, i fod yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unig erbyn diwedd tymor nesa'r Senedd.

3.45. Mae anghysondeb yn y ffaith fod canllawiau drafft y Llywodraeth yn nodi y byddai disgwyl i ysgolion yng nghategori 1 gyfathrebu'n uniaith Saesneg gyda rhieni a gofalwyr, tra byddai disgwyl i ohebiaeth gan ysgolion yng nghategorïau 2 a 3 fod yn ddwyieithog.

3.46. Dylid ymestyn y disgwyliad fod ysgolion yng nghategorïau 2 a 3 yn cyfathrebu'n ddwyieithog gyda rhieni a gofalwyr i hefyd gynnwys ysgolion cyfrwng Saesneg. Pwrpas hyn fyddai gwireddu hawl rhieni a gofalwyr i gyfathrebu'n Gymraeg gydag ysgol eu plant waeth pa gategori y lleolir yr ysgol yn ogystal â normaleiddio presenoldeb y Gymraeg yn ysgolion cyfrwng Saesneg.

3.47. **Dylid newid y categori 1 drafft fel a ganlyn**:

- Newid yr enw i 'Categori 3';
- Cryfhau'r disgwyliadau o ran canran y defnydd o'r Gymraeg yn y Cwricwlwm i 20%;
- Cryfhau'r disgwyliadau o ran iaith gyfathrebu, naws ac ethos yr ysgol (o Gymraeg '*achlysurol*' i Gymraeg *'feunyddiol'*).

Categori 2 drafft

3.48. Yn ôl disgrifiad ysgolion categori 2 a cheir fan hyn, camarwain rhieni fydd awgrymu mai canlyniad mynychu ysgol yn y categori hwn fydd dwyieithrwydd i'w plant. Rhaid felly cryfhau'r disgwyliadau o ran y defnydd o'r Gymraeg yn y Cwricwlwm, yng ngweithgareddau tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, ac fel iaith gyfathrebu yr ysgol.

3.49. **Dylid newid y categori 2 drafft fel a ganlyn**:

- Cryfhau'r disgwyliadau fel mai Categori 2 fydd ysgol gynradd lle mae'r Cyfnod Sylfaen oll trwy gyfrwng y Gymraeg, a bod defnydd o'r ddwy iaith yn gyfrwng addysgu o 8 oed i fyny, naill ai ym mhob dosbarth neu mewn dwy ffrwd.

Categori 3 drafft

3.50. Mae defnydd o'r Gymraeg ar draws yr holl ysgol a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn bwysig i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer y plant lleiaf ac effeithiolrwydd dulliau trochi. Dylai'r categori uchaf cyfrwng Cymraeg hwn felly gyfeirio at ysgol gyfan, nid at ffrwd, lle mae o leiaf 80% o'r addysg i'r *holl* ddisgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg, nid rhai disgyblion yn unig.

3.51. **Dylid newid y categori 2 drafft fel a ganlyn**:

- Newid yr enw i 'Categori 1';

- Ail-ddiffinio'r categori fel ei fod yn cyfeirio at ysgol gyfan, nid at ffrwd, lle mae o leiaf 80% o'r addysg i'r *holl* ddisgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg, nid rhai disgyblion yn unig.

Ysgolion uwchradd

Categori 1 drafft

3.52. Honnir fydd gan ddisgyblion sy'n gadael ysgol Categori 1 cyfrwng Saesneg — lle addysgir efallai dim ond 10% o'r cwrciwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg, a Saesneg yw iaith gyfathrebu'r ysgol — '*digon o sgiliau Cymraeg i gyfathrebu mewn ystod o gyddestunau penodol*.'

3.53. Nid yw'n glir sut mae'r Llywodraeth yn disgwyl i hyn fod yn wir, pan wyddwn mae'r realiti yw nad yw'r rhan helaeth o ddisgyblion yn gadael ysgolion cyfrwng Saesneg yn gyda sgiliau cyfathrebu yn Gymraeg, ac nid yw'r camau polisi mewn lle ar hyn o bryd i newid hyn.

3.54. Er gwaethaf yr ymrwymiad at symud tuag at ddysgu'r Gymraeg ar un continwwm, mae Cwricwlwm i Gymru yn cadw'r disgwyliadau isel ac eilradd ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg, trwy gadw dau lwybr dysgu'r Gymraeg ac ail-frandio Cymraeg ail iaith.

3.55. Ymhellach, mae Cymwysterau Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori ar eu cynigion ar gyfer cymwsterau'r Gymraeg i gydfynd â'r Cwricwlwm newydd, sydd ddim hyd yn oed yn cynnwys yr opsiwn o un cymhwyster Cymraeg — yr hyn sydd ei angen er mwyn gwireddu un continwwm dysgu'r Gymraeg. Nid yw'r Llywodraeth wedi cyfarwyddo Cymwysterau Cymru i ddatblygu un cymhwyster cyfun Cymraeg er mwyn cyflawni amcanion polisi cenedlaethol.

3.56. Mae strategaeth iaith y Llywodraeth yn cynnwys y targed o hanner y disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn gadael yr ysgol yn rhugl eu Cymraeg erbyn 2050, ond nid ydynt wedi cyhoeddi unrhyw gynllun na cherrig milltir er mwyn cyrraedd y nod hwnnw, ac mae'r gweithredoedd uchod yn ei rhwystro. Yn absenoldeb unrhyw gynllun neu weithredoedd ystyrlon, y peryg yw bod y nod hwn yn cuddio ac yn tynnu oddi ar yr angen i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn sylweddol.

3.57. Yn ôl nod polisi honedig y Llywodraeth felly, bydd ysgolion sydd yn y categori 1 drafft (ysgolion cyfrwng Saesneg) yn methu, gan eu bod yn darparu cyn lleied o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

3.58. Rhaid creu cymhelliant o'r newydd i ysgolion cyfrwng Saesneg gynyddu eu darparieth Gymraeg. Dylid ehangu'r categori hwn a chynyddu'r disgwyliadau o ran darpariaeth Gymraeg yr ysgolion sy'n cael eu cynnwys ynddo, trwy gynnwys dau is-gategori ac ehangu'r ystod o ddarpariaeth i hyd at 30% o'r Cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.

3.59. Yn ogystal, dylid ei wneud yn glir bydd disgwyl dros amser i bob ysgol gynyddu ei darpariaeth Gymraeg a symud at gategori 2 yn y pendraw, a chyhoeddi cynllun cenedlaethol er mwyn annog a hwyluso hynny.

3.60. Mae anghysondeb yn y ffaith fod canllawiau drafft y Llywodraeth yn nodi y byddai disgwyl i ysgolion yng nghategori 1 gyfathrebu'n uniaith Saesneg gyda rhieni a gofalwyr, tra byddai disgwyl i ohebiaeth gan ysgolion yng nghategorïau 2 a 3 fod yn ddwyieithog.

3.61. Dylid ymestyn y disgwyliad fod ysgolion yng nghategorïau 2 a 3 yn cyfathrebu'n ddwyieithog gyda rhieni a gofalwyr i hefyd gynnwys ysgolion yng nghategori 1. Pwrpas hyn fyddai gwireddu hawl rhieni a gofalwyr i gyfathrebu'n Gymraeg gydag ysgol eu plant waeth pa gategori y lleolir yr ysgol yn ogystal â normaleiddio presenoldeb y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

3.62. **Dylid newid y categori 1 drafft fel a ganlyn**:

- Newid yr enw i ‘Categori 3’;
- Cynnwys dau is-gategori 3a a 3b, fel bod y categori yn cynnwys ysgolion sy’n darparu o leiaf 20% a hyd at 40% o’u cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Cryfhau’r disgwyliadau o ran iaith gyfathrebu, naws ac ethos yr ysgol (o Gymraeg ‘*achlysurol*’ i Gymraeg *‘feunyddiol’*).

Categori 2 drafft

3.63. Cwbl gamarweiniol fydd galw'r ysgolion yn y categori hwn yn rhai ‘Cymraeg/Saesneg’. Cynigir y byddai o leiaf 40% o ddisgyblion yn cymryd o leiaf 40% o’u pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y categori hwn. Ar ei lleiaf felly, byddai’n bosib i dim ond 16% o addysg yr ysgol fod yn Gymraeg, ac 84% yn Saesneg, a mwyafrif y disgyblion yn dilyn dim pynciau o gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.

3.64. Bydd hyn yn rhoi camargraff i rieni o ran y sgiliau ieithyddol y gallant eu disgwyl i’w plant eu caffael mewn ysgol sydd yn y categori hwn, gyda’r categori mor eang ei fod yn cwmpasu ystod o ysgolion gwahanol o ran eu naws ieithyddol a chanlyniadau addysgol. Dryswch i rieni fydd y canlyniad, nid yr eglurder mae’r canllaw drafft yn anelu ato.

3.65. Ni fydd y categori fel y mae wedi’i ddylunio yn sicrhau cynnydd, gan ei fod yn cynnwys ystod mor eang o ysgolion ac ni fydd cymhelliant i ysgol gynyddu ei darpariaeth Gymraeg.

3.66. Rhaid felly gynnwys is-gategorïau yn y categori hwn i wahaniaethu rhwng gwahanol lefelau o ddarpariaeth a sicrhau cynnydd.

3.67. **Dylid newid y categori 2 drafft fel a ganlyn**:

- Ei fod yn cynnwys unrhyw ysgol ddwy ffrwd;
- Cyflwyno is-gategorïau sy’n gwahaniaethu rhwng gwahanol lefelau o ddarpariaeth, hyd at 80% o’r addysg trwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl.

Categori 3 drafft

3.68. Mae’r categori 3 drafft yn llawer rhy eang, i’r graddau ei fod yn gwneud y term ‘ysgol cyfrwng Cymraeg’ yn ddiystyr. Mae’r cynigion fan hyn yn annerbyniol ac mae rhaid eu newid.

3.69. Mae gwahaniaeth mawr rhwng ysgol lle addysgir pob pwnc i bob disgybl trwy gyfrwng y Gymraeg, heblaw Saesneg (ysgolion cyfrwng Cymraeg o dan y categorïau presennol) ac un lle mae 70% o’r addysg trwy gyfrwng y Gymraeg i rai disgyblion yn unig, o ran naws ieithyddol a deilliannau i ddysgwyr.

3.70. Mae anwybyddu’r ffaith hwn a’r holl dystiolaeth addysgol ac ymarferol tu ôl iddo trwy gynnwys ystod mor eang o ysgolion gwahanol o dan y categori ‘cyfrwng Cymraeg’ yn tanseilio holl nod y polisi o gynyddu darpariaeth Gymraeg a gwella eglurder.

3.71. Mae'r categori ‘uchaf’ hwn yn cynrychioli dirywiad ar gategorïau presennol ‘cyfrwng Cymraeg’ a 2A lle mae 80%-90% o'r *holl* gwricwlwm i'r *holl* ddisgyblion yn Gymraeg. Yn ôl y canllaw drafft, dim ond 70% o ddisgyblion fyddai’n gorfod cymryd o leiaf 5 pwnc (efallai 60% o'r cwricwlwm) yn Gymraeg. Felly gellid cael, yn ol mympwy prifathro neu lywodraethwyr neu benodiadau yn y dyfodol, ddirywiad o 90% o'r addysg yn Gymraeg i lai na hanner yr addysg yn Gymraeg trwy'r ysgol.

3.72. O ganlyniad, dydy’r cynigion ynghylch y categori hwn ddim yn annog cynnydd, ond yn waeth na hynny, maent hefyd yn peri risg o *ddirywiad* yn narpariaeth addysg Gymraeg.

3.73. Maent yn tanseilio statws ysgolion cyfrwng Cymraeg cyflawn presennol, sef y safon aur o ran addysg Gymraeg a model sydd wedi llwyddo ac ennill cydnabyddiaeth fyd-eang dros ddegawdau.

3.74. Maent hefyd yn cymryd i ffwrdd y cymehlliant i gynyddu darpariaeth Gymraeg ysgolion dwyieithog, gan fydd nifer ohonynt dros nos yn cael eu categoreiddio fel ysgolion cyfrwng Cymraeg heb orfod newid dim.

3.75. Mae canlyniadau anfwriadol fel hyn yn torri'r egwyddor o beidio symud yn ôl yn y ddogfen, a'r amcanion o gynyddu darpariaeth Gymraeg, hwyluso ysgolion i symud ar hyd y continwwm ieithyddol a gwella eglurder.

3.76. Ni ddylid defnyddio categori ieithyddol uchaf i gyfeirio at ffrwd Gymraeg yn unig mewn ysgol. O wneud hynny, gall fod llawer llai o addysg Gymraeg mewn ysgol categori uchaf nag mewn ambell ysgol ail gategori.

3.77. Dylid gyflwyno is-gategori newydd Cyfrwng Cymraeg, sef ysgol lle addysgir pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg, heblaw Saesneg (sef y categori 'cyfrwng Cymraeg' presennol)

3.78. Dylid wneud yn glir yn y canllaw mai Cyfrwng Cymraeg yw'r lefel o ddarpariaeth y dylai pob ysgol yng nghategori 1 fod yn anelu i'w gyrraedd.

3.79. Bydd hyn yn gwarchod statws penodol ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol a sicrhau gwell gysondeb ar draws y wlad (un o nodau polisi'r canllaw newydd) tra hefyd anelu at newid y sefyllfa annheg bresennol lle mae disgyblion yn ysgolion cyfrwng Cymraeg siroedd yn ne'r wlad yn cael pob gwers a gweithgaredd yn Gymraeg, lle mae disgyblion yn ysgolion Cymraeg siroedd y gorllewin, y gogledd a'r canolbarth ddim.

3.80. **Dylid newid y categori 3 drafft fel a ganlyn**:

- Newid yr enw i 'Categori 1';
- Dylai 'ysgol cyfrwng Cymraeg' gyfeirio at ysgol gyfan ac ni ddylid cynnwys ysgolion gyda ffrwd Gymraeg yn unig;
- Cynyddu'r lleiafswm o'r canran o addysg Gymraeg i 80% o'r addysg i bob disgybl;
- Cyflwyno is-gategorïau sy'n adlewyrchu'r 2a ac 1 presennol, ac annog pob ysgol i symud tuag at ddarpariaeth lefel 1 — ysgol cyfrwng Cymraeg lle addysgir pob pwnc heblaw Saesneg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Canllawiau ychwanegol i grwpiau penodol

3.81. Cefnogwn y cynnig o lunio a chyhoeddi canllawiau ychwanegol wedi'u teilwra tuag at grwpiau penodol, er enghraifft ysgolion a rhieni/gofalwyr, yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau hyn yn derfynol.

3.82. Gwyddwn fod dryswch ymysg y cyhoedd a rhieni a gofalwyr ynghylch darpariaeth addysg Gymraeg yng Nghymru, y categorïau presennol a'r disgwyliadau o ran sgiliau ieithyddol plant mewn ysgolion dwyieithog a chyfrwng Saesneg.

3.83. Yn rhannol, mae hyn o ganlyniad i'r camargraff mae rheini wedi'i chael gan y Llywodraeth ac awdurdodau lleol dros y degawdau ar effeithiolrwydd lleoliadau addysg ddwyieithog a'r cwrs Cymraeg ail iaith a o ran datblygu sgiliau iaith, sydd wedi bod yn fethiant llwyr i fwyafrif o bobl ifanc Cymru, fel mae sawl adolygiad ac adroddiad arbenigol wedi dangos.

3.84. I gyd-fynd â'r newidiadau, dylai'r Llywodraeth ddatblygu canllaw clir, hawdd ei ddeall i rieni ar y categorïau newydd. Dywedir mai un nod i'r newidiadau yw '*galluogi rhieni neu ofalwyr i allu gwneud penderfyniadau mwy hyderus a gwybodus wrth ddewis llwybr addysg i'w plant*'. Mae'n hanfodol felly bod y canllaw hwn yn cynnwys neges onest i rieni

mai dim ond trwy ddilyn rhan sylweddol o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg y daw disgyblion i allu cyfathrebu a gweithio yn y ddwy iaith, ac ni ellir disgwyl i unrhyw gyd-destun addysg arall lwyddo yn hynny o beth.

3.85. Yn ogystal, dylai'r canllaw i rieni a gofalwyr gynnwys gwybodaeth clir ar fuddiannau addysg Gymraeg a dwyieithrwydd i blant a phobl ifanc, gan osod addysg yng Nghymru yn nghyd-destun polisi cenedlaethol ar dyfu addysg Gymraeg a chyrraedd miliwn o siaradwyr, ynghyd â'r dystiolaeth addysgol rhyngwladol ddiwrthbrawf o fuddiannau addysgol a chymdeithasol dwyieithrwydd. Dylai'r canllaw hwn fod ar gael mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg.

3.86. Rhy aml mae canllawiau i rieni a gofalwyr yn cymryd agwedd 'niwtral' a goddefol ar gyfrwng addysg, ac felly o fewn cyd-destun lle mae'r Gymraeg yn iaith wedi'i lleiafrifoli, yn atgyfnerthu addysg cyfrwng Saesneg fel y norm. Nawr fod y cysyniad o 'fesur y galw' ar gyfer addysg Gymraeg ar gyfer awdurdodau lleol wedi'i ddileu yn y CSGAu — newid rydym wedi'i groesawu — rhaid i gyfathrebiadau gyda rhieni a gofalwyr ynghylch addysg Gymraeg newid hefyd. Yn hytrach na fframio pob dim fel mater o 'ddewis' i rieni, dylai'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol fod yn mynd ati'n rhagweithiol i hybu, hyrwyddo a normaleiddio addysg Gymraeg.

3.87. Yn ail, dylid hefyd ddatblygu canllaw clir a chynhwysfawr i ysgolion a'u penaethiaid a chyrff llywodraethu ar yr angen i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg, sut i wneud hyn yn ymarferol a'r gefnogaeth sydd ar gael gan y Llywodraeth, awdurdodau lleol, consortia addysg, Estyn ac eraill. Dylid cynnwys camau ymarferol clir a chyfeirio at adnoddau ar gyfer pob elfen o'r ysgol (y cwricwlwm, staff, gweithgareddau all-gyrsiol, ethos ayyb) fydd yn cefnogi ysgolion i ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer darparu fwyfwy o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

4. Polisi addysg ehangach

4.1. Yn ogystal â'r newidiadau i'r system o gategoreiddio ysgolion a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, mae angen cyfres o newidiadau strwythurol parhaol i bolisïau'r Llywodraeth, gan gynnwys:

- cydnabyddiaeth ariannol i awdurdodau lleol a/neu ysgolion sy'n cyrraedd eu targedau CSGAu ac yn ehangu addysg cyfrwng Cymraeg;
- cronfa cyfalaf ariannol flynyddol ychwanegol ar gyfer prosiectau cyfrwng Cymraeg er mwyn cymell newid;
- datganiad a meini prawf clir ynglŷn â sut mae rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn mynd i gymell a chynorthwyo twf a normaleiddio addysg cyfrwng Cymraeg;
- datganiad am ragor o gamau gorfodi a chyfundrefn atebolrwydd er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni ar y targedau a'r dyletswyddau yn y rheoliadau CSGAu a'r disgwyliadau newydd yn y canllaw categoreiddio;

4.2. Ymhellach, dylai fod datganiad clir am becyn o newidiadau i gynllunio'r gweithlu trwy gamau polisi, gan gynnwys:

- Sefydlu targedau statudol er mwyn cynyddu canrannau'r bobl sy'n hyfforddi i fod yn athrawon o'r newydd fydd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Sicrhau mai nod pob un cwrs yn y cynllun sabothol yw bod pob gweithiwr yn mynd ymlaen i addysgu drwy'r Gymraeg wedi'r cwrs, gyda thystysgrif sgiliau fel gwarant;

- Rhaglen ddwys o hyfforddiant mewn swydd gwahaniaethol yn y gweithle, gan gynnwys:
    - cyrsiau ymwybyddiaeth iaith ar gyfer newydd-ddyfodiaid i Gymru;
    - rhaglen hyfforddiant gloywi Iaith ar gyfer y 6% o athrawon sy'n medru'r Gymraeg ond ddim yn addysgu drwyddi ar hyn o bryd, gan arwain at dystysgrif gallu o fewn blwyddyn;
    - rhaglenni hyfforddiant gwahaniaethol i atgyfnerthu gallu'r mwyafrif i gefnogi defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm gan dargedu'r rhai mwyaf hyderus ac abl yn y Gymraeg ar gyfer rhaglenni mwy dwys yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer cyfnodau hyfforddiant preswyl – gan arwain at ennill tystysgrif sgiliau dros gyfnod o dair blynedd;
    - atgyfodi ac ymestyn y rhaglenni athrawon bro i lywio'r cynlluniau uchod, gan gynnwys sefydlu rhwydwaith o fentoriaid, grwpiau cefnogi ysgol/ardal.
- Ymestyn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon am hyd at flwyddyn ychwanegol i alluogi darpar athrawon i ddysgu Cymraeg a gloywi iaith;

4.3. Yn ogystal, mae angen i'r Llywodraeth nesaf gyflwyno Deddf Addysg Gymraeg er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau amlwg yn y ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol yn unol â chasgliadau'r Bwrdd Cynghori Strategol y Gymraeg mewn Addysg. O ganlyniad i'r adroddiadau a thrafodaethau ynghylch y rheoliadau hynny a'r categorïau hyn, credwn fod consensws am yr angen i ddeddfu er mwyn gwella meysydd megis y canlynol:

- symud i system o dargedau lleol pendant yn lle cynlluniau lleol;
- pwerau gorfodi a chymell er mwyn cyrraedd y targedau;
- nod deddfwriaethol i ddisodli mesur y galw;
- gosod dyletswyddau ynghylch darpariaeth blynyddoedd cynnar;
- gosod dyletswyddau ynghylch addysg ôl-16;
- trafnidiaeth am ddim i sefydliadau addysg cyfrwng Cymraeg;
- dyletswyddau a newidiadau ynghylch cynllunio'r gweithlu.

4.4. Yn ein barn ni felly, dylai'r cynigion deddfwriaethol sylfaenol gynnwys cynigion i:

- Sefydlu nod hirdymor yn y ddeddfwriaeth i gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg i bawb, fel y gwneir yng Nghatalwnia, wrth ddisodli 'mesur y galw';
- Er mwyn gweddnewid y system o fewn ychydig ddegawdau i system debyg i un Catalwnia, disodli'r gyfundrefn bresennol o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a lunir gan awdurdodau lleol, cyfundrefn sydd wedi methu, gyda system sy'n gosod targedau clir, di-droi'n-ôl ar gyfer normaleiddio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cyrraedd y nod hirdymor erbyn dyddiad(au) pendant;
- Sefydlu cyfundrefn sydd â chymhellion ariannol clir – refeniw a chyfalaf – a fformiwla glir er mwyn sicrhau bod y targedau hynny'n cael eu cyflawni drwy awdurdodau lleol;
- Gosod targedau o ran cynyddu nifer a chanran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion sy'n addysgu'n bennaf drwy'r Saesneg ar hyn o bryd, yn unol ag argymhelliad adroddiad yr Athro Sioned Davies;
- Sefydlu hawl i drafnidiaeth yn rhad ac am ddim i ysgolion a meithrinfeydd Cymraeg;
- Gosod dyddiad targed statudol ar gyfer darparu addysg blynyddoedd cynnar a chyfnod sylfaen yn Gymraeg yn unig ar draws Cymru gyfan;

- Sefydlu ac ehangu canolfannau trochi ym mhob sir, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn gweithredu ar yr un patrwm â'r gyfundrefn yng Ngwynedd, drwy wneud y canolfannau yn rhan o ddarpariaeth statudol i gynghorau lleol yn eu hardal;
- Sefydlu targedau statudol o ran nifer y bobl sy'n hyfforddi i fod yn athrawon o'r newydd er mwyn sicrhau cynnydd yn y ganran fydd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Sefydlu'r hawl i addysg cyn-ysgol leol yn Gymraeg a gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i sicrhau bod darpariaeth gofal ac addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn y sir i baratoi plant ar gyfer addysg statudol Gymraeg;
- Sefydlu'r hawl i astudio drwy'r Gymraeg mewn addysg ôl-16, gan gynnwys y brifysgol, mewn prentisiaeth ac yn y chweched dosbarth neu yn y coleg;
- Gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chonsortia addysg i gynllunio'n strategol a darparu rhaglenni dysgu proffesiynol fydd yn cynyddu nifer y gweithwyr addysg sy'n gwella eu sgiliau Cymraeg. Dylai hyn gynnwys cydnabyddiaeth o hawl gweithwyr addysg i ddysgu'r Gymraeg yn rhugl yn y gwaith.

4.5. Mae ein cynigion llawn a'r dystiolaeth llawr gwlad o'r angen am Ddeddf Addysg Gymraeg i Bawb i'w gweld yn ein papur *Yr Achos dros Ddeddf Addysg Gymraeg i Bawb*, sydd ar gael yn cymdeithas.cymru/achosdeddfaddysg

4.6. Mae cynigion pellach ynghylch cynllunio addysg Gymraeg ar lefel genedlaethol gan y Llywodraeth nesaf i'w gweld yn ein dogfen weledigaeth *Mwy na Miliwn - Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb*, sydd ar gael yn cymdeithas.cymru/mwynamiliwn

Gwybodaeth pellach
Am unrhyw wybodaeth pellach, neu i drafod y materion a godwyd yn yr ymateb hwn, cysylltwch â post@cymdeithas.cymru.

Dogfennau
- Mwy na Miliwn – Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb (2020)
- Ymateb Cymdeithas yr Iaith i'r ymgynghoriad ar Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2019)
- Un Cymhwyster Cymraeg Iaith i Bawb (2019)
- Ymateb i adolygiad Bwrdd Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2018)
- Yr Achos dros Ddeddf Addysg Gymraeg i Bawb (2019)
- Cynllunio'r Gweithlu Addysg – Cyrraedd Miliwn o Siaradwyr (2016)

Grŵp Addysg, Cymdeithas yr Iaith
Mawrth 2021